Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Cyfarfod Cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona,

Ystafell Bwyllgora 5, Ty Hywel, Bae Caerdydd, Caerdydd,

Dydd Mawrth 10 Gorffennaf 2018 am 12.30

Yn bresennol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

John Griffiths, AC - Cadeirydd

Llyr Gruffydd, AC

Ann Jones, AC

Elin Jones, AC, Y Llywydd

Darren Millar, AC

David Rees, AC

Bethan Sayed, AC

Mark Reckless, AC

Cynrychiolydd Jayne Bryant, AC

Becs Parker - Swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AC

Rhiannon Tapp - Gweithiwr Achos, Swyddfa John Griffiths AC

Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Jeff Cuthbert - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan.

Dafydd Llywelyn - Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Alun Michael - Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Ann Griffith - Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Cerith Thomas - Cynghorydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i Dîm Plismona Cymru Gyfan, Ysgrifennydd y Grwp

Sian Curley - Prif Weithredwr, tîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Carys Morgans - Prif Weithredwr, tîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Prif Gwnstabliaid,

Matt Jukes - Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru

Julian Williams - Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent

Mark Polin - Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru

Darren Davies - Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu Dyfed-Powys

Robert (Bob) Evans - Dirprwy Brif Gwnstabl, Tîm Plismona Cymru Gyfan

Tony Brown - Prif Uwcharolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu.

Gwahoddedigion

Joanne Hopkins –Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru

Andrew Felton - Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Yr Arolygydd Dave Gordon - Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Steve Trigg - Ffederasiwn yr Heddlu

Steve Carr - Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru

Steve Chapman - Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru, Cydgysylltydd Gwrth-Gaethwasiaeth

1. **Croeso**

Croesawodd Mr John Griffiths AC bawb i gyfarfod cyntaf y Grwp Trawsbleidiol ar Blismona a thynnodd sylw at bwysigrwydd y Grŵp gan gyfeirio'n benodol at uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru i ddatganoli plismona.

2. **Penodi Cadeirydd ac Ysgrifennydd**

Gofynnwyd am enwebiadau gan Aelodau'r Cynulliad a oedd yn bresennol i benodi Cadeirydd y Grŵp. Enwebwyd Mr John Griffiths AC ac fe'i penodwyd yn unfrydol i wasanaethu am dymor o 12 mis. Diolchodd Mr Griffiths i Aelodau'r Cynulliad am eu cefnogaeth a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio fel Cadeirydd yn ystod blwyddyn gyntaf y Grŵp.

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Ysgrifennydd y Grŵp. Cynigiwyd Mr Cerith Thomas o Dîm Plismona Cymru a derbyniwyd y cynnig gan yr Aelodau Cynulliad a oedd yn bresennol.

Rhoddodd y Prif Uwcharolygydd Tony Brown drosolwg i'r Grŵp o ddiben Uned Gyswllt yr Heddlu a oedd wedi'i lleoli yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. Roedd yr Uned yn darparu cysylltiad rhwng y gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Llywodraeth Cymru, a oedd wedi dod yn fwyfwy pwysig o ystyried y rhyngddibyniaeth rhwng eu rolau a'u swyddogaethau priodol.

3. **Amlder cyfarfodydd y Grŵp**

Cytunwyd y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tymor, a fyddai'n golygu cyfanswm o dri chyfarfod y flwyddyn.

4. **Cyflwyno Aelodau'r Grwp Trawsbleidiol ar Blismona**

Cyflwynodd pob un o'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid neu eu dirprwyon enwebedig eu hunain i'r rhai oedd yn bresennol.

5. **Cyflwyniad gan Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan.**

Amlinellodd Jeff Cuthbert rôl a chyfrifoldebau’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac eglurodd y gwahaniaeth rhwng eu cyfrifoldebau hwy a chyfrifoldebau’r Prif Gwnstabliaid, a oedd yn canolbwyntio mwy ar weithredu.

Yn gryno, roedd cyfrifoldebau'r Comisiynwyr yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt -

- Y person cyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd yn ei ardal.
- Lleihau trosedd a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon.
- Gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer plismona yn eu hardal drwy eu Cynllun Heddlu a Throseddu.
- Penderfynu ar y gyllideb plismona a chyfrifoldeb am osod y praesept plismona lleol.
- Penodi’r Prif Gwnstabl a’i ddiswyddo os bydd angen.
- Dwyn y Prif Gwnstabliaid a'r heddlu i gyfrif, gan wneud yr heddlu’n atebol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a hynny mewn ffordd effeithiol.
- Comisiynu gwasanaethau dioddefwyr lleol yn eu hardal.
- Sicrhau bod anghenion plismona cymunedol yn cael eu diwallu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl
- Gweithio gyda phartneriaid lleol ac ennyn hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae rhagor o fanylion am rôl a chyfrifoldebau’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ynghlwm yn "atodiad A".

Pan etholwyd y Comisiynwyr yn gyntaf, yn 2012, darparodd y Swyddfa Gartref tua 70 y cant o gyllid yr heddlu yng Ngwent a chodwyd 30 y cant o'r praesept treth gyngor lleol. Ers hynny, roedd y rhaniad cyllid wedi newid fel bod y Swyddfa Gartref bellach yn darparu 60 y cant a 40 y cant yn cael ei ddarparu gan y praesept treth gyngor lleol.

Fodd bynnag, roedd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn gyfrifol am ystâd yr heddlu; Roedd y Prif Gwnstabliaid yn gyfrifol am ddyrannu swyddogion yr heddlu i'r gorsafoedd heddlu, a oedd yn cyd-fynd â'u rôl weithredol.

Roedd gan wasanaeth yr heddlu yng Nghymru berthynas dda â Llywodraeth Cymru a chyfeiriwyd yn benodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) a phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth mewn perthynas â diogelwch cymunedol. Cydnabuwyd cefnogaeth Llywodraeth Cymru o ran ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r rhaglen cyswllt ysgolion.

6. **Matt Jukes, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru.**

Nododd y Prif Gwnstabl Matt Jukes yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth heddlu ar hyn o bryd yng Nghymru a gellir eu crynhoi fel a ganlyn.

Ers 1995, roedd troseddau cyffredinol a throseddau traddodiadol, fel troseddau ceir a bwrgleriaeth, wedi lleihau i'r graddau nad oedd tua 90 y cant o’r miliwn o alwadau a gafwyd yn Ne Cymru y llynedd yn gysylltiedig â throsedd.

Fodd bynnag, roedd ymateb yr heddlu i bobl agored i niwed a phobl â phroblemau iechyd meddwl wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Roedd adroddiadau am drais rhywiol wedi dyblu ac roedd yn cynnwys achosion hanesyddol a diweddar. Rheswm arwyddocaol am y cynnydd oedd bod gan bobl fwy o hyder i adrodd am droseddau o'r fath. Roedd troseddau eraill fel cam-drin domestig wedi rhoi pwysau ychwanegol ar heddluoedd ac yn Ne Cymru, adroddwyd am oddeutu 34,000 o achosion o gam-drin domestig bob blwyddyn. Roedd troseddau mewn categorïau eraill fel trais, trais rhywiol, trosedd seiber a throsedd yn gysylltiedig â'r rhyngrwyd hefyd yn cynyddu. Yn ogystal â hynny, roedd elfen ddigidol wedi dod yn gyffredin mewn nifer uchel o droseddau. Gallai ffonau symudol gynnwys cymaint â ¼ miliwn o negeseuon, a oedd yn rhoi galwadau mwy cymhleth ar weithlu'r heddlu.

Roedd lefel o alw heb ei fodloni o ran iechyd meddwl ac ymdriniodd Heddlu De Cymru â dros 100 o alwadau bob dydd ar gyfartaledd.

Roedd y bygythiad terfysgol hefyd yn esblygu ac roedd rhai wedi deillio o Gymru ac yn broblem gyfredol yn Ne, De-ddwyrain a De-orllewin Cymru. Roedd eithafiaeth asgell dde hefyd wedi cynyddu.

Roedd y bygythiad gan "Linellau Sirol" a oedd yn cynnwys gangiau troseddu cyfundrefnol sy'n ecsbloetio pobl ifanc i ddosbarthu cyffuriau anghyfreithlon hefyd wedi dod yn broblem fel y cynnydd cysylltiedig mewn troseddau cyllyll a drylliau.

Roedd y pwysau o blismona Caerdydd fel prifddinas yn golygu bod angen tynnu adnoddau o fannau eraill ar gyfer y cannoedd o ddigwyddiadau a gynhelir yn ystod blwyddyn nodweddiadol yn ogystal â'r rhai proffil uwch fel Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA.

Arweiniodd caledi yn y sector cyhoeddus at i dros 20 y cant gael ei gymryd o gyllidebau sefydliadau a gwerthfawrogwyd cymorth Llywodraeth Cymru i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Roedd nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael ei ostwng yn llawer o heddluoedd Lloegr. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n wir yng Nghymru lle’r oeddent yn parhau i gyflawni swyddogaeth bwysig.

Roedd materion cenedlaethol hefyd i'w hystyried gan gynnwys gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac ymdrin â materion cymhleth fel caethwasiaeth fodern.

7. **<u>Sesiwn agored:</u>**

Codwyd y pwyntiau a'r trafodaethau canlynol yn ystod y sesiwn agored.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oes digon o unedau argyfwng iechyd meddwl yn y rhanbarth, dywedwyd wrth y Grŵp fod nifer y bobl a fyddai wedi cael eu rhoi yng nghelloedd yr heddlu tan yn gymharol ddiweddar wedi lleihau a bellach roedd llawer yn cael eu hebrwng i fannau diogel eraill. Fodd bynnag, roedd angen timau argyfwng ychwanegol o hyd.

Cyfeiriwyd at yr angen i ddarparu lloches ar gyfer pobl a oedd wedi dod i gysylltiad â'r heddlu ac nad oeddent wedi cael diagnosis o broblem iechyd meddwl. Roedd angen dull partneriaeth i ddatrys y broblem gan nad oedd y sefyllfa'n gweithredu'n effeithiol.

Tynnwyd sylw at achos yn Ysbyty Gwynedd lle na allai staff ymdopi â dau berson 14 oed a oedd yn hunan-niweidio ac yn ymddwyn yn dreisgar. Teimlwyd fod angen llety mwy addas i ymdrin ag achosion o'r fath.

Darparwyd manylion am fenter yn ystafell reoli Heddlu Gwent lle mae pump o bobl wedi'u secondio o'r gwasanaeth iechyd, ond sy'n cael eu talu gan Heddlu Gwent, i gynorthwyo staff yr ystafell reoli i ymdrin ag argyfyngau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Tynnwyd sylw at fater lle bu'n rhaid i swyddogion yr heddlu aros ar safle digwyddiadau am nifer o oriau i aros am ambiwlansys. Ystyriwyd bod sefyllfaoedd o'r fath yn ddiogel oherwydd bod yr heddlu yn bresennol; fodd bynnag, golygai hynny na ellid defnyddio adnoddau mewn mannau eraill a bod yn rhaid i'r person a anafwyd aros yn hwy am sylw meddygol. Roedd hon yn broblem gyffredin ledled Cymru.

Roedd gan y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys (JESG) grŵp digwyddiadau anffafriol a oedd yn ymchwilio i'r broblem. Y broblem fwyaf oedd bod ambiwlansys yn aros y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai.

Crybwyllwyd menter Pwynt Help Abertawe yn economi'r nos fel un a oedd wedi arbed dros 1300 o dderbyniadau ambiwlans dros gyfnod o 12 mis. Roedd hyn yn golygu eu bod ar gael ar gyfer argyfyngau eraill a gallai swyddogion fynd yn ôl at eu dyletswyddau plismona.

Roedd barn gyffredinol y dylid datganoli plismona a'r system cyfiawnder troseddol ar yr un pryd. Roedd y Grŵp Trawsbleidiol yn rhoi cyfle i gael perthynas adeiladol a thynnwyd sylw eisoes at nifer o bynciau i'w trafod gan gynnwys sut yr ydym yn ymgysylltu â chymunedau.

Roedd y Prif Gwnstabliaid wedi ymateb i Gomisiwn Thomas ar Gyfiawnder Troseddol a Phlismona a theimlent y dylid datganoli'r ddau gyda'i gilydd.

Cyfeiriwyd at y cynnydd a ragwelir mewn trais rhywiol a cham-drin domestig yn deillio o gemau cwpan pêl-droed y byd.

Cadarnhawyd fod gan heddluoedd drefniadau ar waith i ymdrin â thrais domestig yn dilyn digwyddiadau chwaraeon, gan gynnwys ymweld â phobl agored i niwed yn ystod y cyfnodau hynny.

Gofynnwyd i'r Comisiynwyr am eu barn ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân, a oedd yn opsiwn i'w cymheiriaid yn Lloegr.

Dywedodd Jeff Cuthbert mai dim ond un Comisiynydd a oedd wedi cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân yn Lloegr *(er bod pum cais arall wedi'u cymeradwyo erbyn hyn)*. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn gyfrifoldeb datganoledig yng Nghymru ac na fyddai'n dod o dan gyfrifoldeb y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Felly, nid oedd y mater wedi codi yng Nghymru, er nad oedd hynny'n golygu na ddylid cael cydweithio da rhwng y gwasanaethau brys.

Mewn perthynas â sylw bod cam-drin cyffuriau yn ymddangos yn fwy agored, gofynnwyd a oedd hynny oherwydd diffyg presenoldeb yr heddlu ac a ellid gwneud mwy mewn ysgolion i fynd i'r afael â'r broblem.

Mewn ymateb, rhoddwyd enghraifft o weithred gudd 18 mis i fynd i'r afael â chyffuriau. Roedd yn tynnu sylw at y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i ymdrin â'r broblem ac nad yw efallai'n weladwy i'r cyhoedd bob tro. Ystyriwyd y rhaglen cyswllt ysgolion yn elfen bwysig i ymdrin â'r broblem.

Gwnaed y pwynt nad problem drefol oedd hon a'i bod hefyd yn effeithio ar gymunedau gwledig. Nid oedd aelodau'r cyhoedd bob amser yn adrodd am drosedd ac roedd menter yn cael ei lansio yn Nyfed-Powys mewn perthynas â "llinellau sirol" a oedd yn annog pobl i roi gwybod am droseddau.

Roedd achosion o fasnachu mewn cyffuriau’n cynyddu'n gyson hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig fel Dyfed-Powys.

8. <u>Pynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd o’r Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol</u>

Awgrymwyd y pynciau canlynol i'w trafod yng nghyfarfodydd y Grŵp yn y dyfodol

1. Iechyd Meddwl
2. Trais Domestig a Thrais Rhywiol
3. Caethwasiaeth Fodern
4. Partneriaethau 3ydd sector
5. Datganoli a Chyfiawnder Troseddol
6. Cyffuriau anghyfreithlon a llinellau sirol.

Cytunwyd mai iechyd meddwl fyddai'r pwnc i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Grŵp.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.26